OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 884

## Rheoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Cynlluniau wedi eu Cymeradwyo) (Cymru) 2011

**Adolygu penderfyniadau**

**13.** Mae penderfyniad dros dro yn newid yn benderfyniad terfynol os yw'r corff llywodraethu'n rhoi gwybod i'r awdurdod perthnasol ei fod yn derbyn y penderfyniad dros dro neu os nad yw'r corff llywodraethu'n gwneud cais am adolygiad yn unol â rheoliad 12 cyn pen 40 o ddiwrnodau calendr ar ôl dyddiad y penderfyniad.